

Crynodeb o'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – Grŵp Cynefin (Blwyddyn Adrodd 25/26)

Dyma flwyddyn gyntaf Grŵp Cynefin o adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Rydym wedi cyhoeddi ein data yn unol â gofynion statudol a byddwn yn parhau i adrodd yn flynyddol trwy wasanaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau y Llywodraeth.

Prif Ganlyniadau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Grŵp Cynefin yn ei gyfanrwydd , gan gynnwys ei is-grwpiau

- Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau: 7.08% (o blaid dynion)
- Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau: 14.11% (o blaid dynion)

Grŵp Cynefin (gan gynnwys Gorwel, ac eithrio Canllaw a Gofal a Thrwsio):

- Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau: 16.24% (o blaid dynion)
- Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau: 18.05% (o blaid dynion)

Canllaw:

- Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau: -6.08% (o blaid merched)
- Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau: 10.53% (o blaid dynion)

Gofal a Thrwsio:

- Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau: -12.53% o blaid merched)
- Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau: -7.52% (o blaid merched)

Patrymau cyflog ar draws y sefydliad

- Mae graddau cyflog craidd (B-G) yn agos i fod yn gydradd, gyda bylchau bach yn unig.
- Mae'r bylchau mwyaf yn ymddangos mewn graddau Spot a'r Prif Dîm Arweinyddiaeth (PDA), lle mae cyflog yn uwch ar gyfartaledd i ddynion.
- Mewn sawl band (C, D, E, a Gorwel), mae'r bwlch canolrifol yn 0%, gan ddangos cydraddoldeb cyflog nodweddiadol hyd yn oed lle mae gwerthoedd cymedrig yn wahanol ychydig oherwydd cyfansoddiad y gweithlu.
- Mae bylchau data yn bodoli ar gyfer rhai rolau (e.e., DLOs), sy'n rhwystro dadansoddiad llawn ar lefel band yn y meysydd hynny.

Proffil a Recriwtio'r Gweithlu

Dros y 12 mis diwethaf, ymunodd 68 o gydweithwyr newydd â'r sefydliad (32 o ferched a 36 o ddynion). Recriwtio yn ôl maes gwasanaeth:

- Grŵp Cynefin: 13 o ferched, 23 o ddynion
- Canllaw: 2 o ferched, 7 dyn
- Gofal a Thrwsio (Conwy a Sir Ddinbych): 4 o ferched, 5 dyn
- Gorwel: 13 o ferched, 1 dyn

Gwnaethpwyd chwe phenodiad i rolau rheoli, un ohonynt wedi'i llenwi gan fenyw. Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn 60% o ferched, sy'n cefnogi datblygiad arweinyddiaeth benywaidd cryf ar draws y sefydliad.

Camau gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwymo i welliant parhaus a bydd yn:

- Cynnal archwiliadau tegwch cyflog rheolaidd.
- Cyhoeddi ystodau cyflog clir a chymhwyso bandiau cyflog strwythuredig.
- Cryfhau prosesau recriwtio a dyrchafiad gydag asesiadau seiliedig ar sgiliau a hyfforddiant rhagfarn anymwybodol.
- Cefnogi dilyniant gyrfa trwy raglenni datblygu arweinyddiaeth newydd, mentora a nawdd.
- Hyrwyddo arferion recriwtio cynhwysol a mwy o amrywiaeth ar baneli cyfweld.
- Parhau i weithio tuag at achrediad QED (Quality in Equality and Diversity).

Ein hymrwymiad

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr teg, tryloyw a chynhwysol. Mae lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn flaenoriaeth hirdymor, a byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar ein cynnydd, gan sicrhau cyfleoedd teg a phrofiadau cadarnhaol i bob cydweithiwr.